# I’w Osod trwy Dendr

## Uned fasnachol ym maes parcio Heol Cilgant, Llandeilo.



**Cyfle i brydlesu'r uned am gyfnod o 3 blynedd**

**Safle masnachu amlwg**

**35 metr sgwâr o arwynebedd llawr sy'n cynnwys man adwerthu**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Disgrifiad

Mewn lleoliad delfrydol mewn safle masnachu amlwg yn y maes parcio prysur hwn. Mae Llandeilo yn dref farchnad fach ond ffyniannus gydag oddeutu 2500 o breswylwyr ac mae ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yng nghanol Dyffryn Tywi.

Mae'n boblogaidd ymhlith pobl leol a thwristiaid.

Mae ganddo adeiladwaith modern a gwaith cerrig Cotswold. Mae ganddo do llechi ar oleddf/â thalcen a 2 ffenestr arddangos.

Mae'n cynnig oddeutu 35 metr sgwâr o arwynebedd llawr sy'n cynnwys man adwerthu, cegin fach a chyfleusterau toiled.

## Amodau

Cyfnod o 3 blynedd o 1 Mehefin 2024.
Bydd y tenant yn gyfrifol am yr holl ardrethi, cyfleustodau, yswiriant, atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw ac alldaliadau.

## Tendr

Dylid dychwelyd pob tendr i'r Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, Derbynfa, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP erbyn 12 canol dydd, ddydd Mawrth, 16 Ebrill 2024.

Dylai'r ceisiadau amlinellu:
Manylion eich defnydd busnes arfaethedig
Syniad o rent blynyddol y tendr heb gynnwys yr holl alldaliadau.

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun yn sgil y trafodion hyn.

## I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Hywel Humphreys**
**Uwch-brisiwr**
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP
**Ffôn: 01267 246 256**
**E-bost: JHHumphreys@sirgar.gov.uk**

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y cyfnewidir contractau. Nid oes rheidrwydd i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig. Ni fydd yr Awdurdod ychwaith yn gyfrifol mewn unrhyw fodd am gostau sydd gan ddarpar brynwr yn sgil dod i gael golwg ar yr eiddo, a all gael ei werthu neu ei dynnu oddi ar y farchnad heb rybudd.

Nodiadau

GD4533